



Ysbytai Cymunedol

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yng Ngwent yn newid

Bydd ein Hysbytai Cymunedol yn parhau i ddarparu gofal o'r radd flaenaf i drigolion Gwent. Mae'r ysbytai hyn wrth galon ein cymunedau ac yn ein helpu i ddarparu ystod eang o ofal i gleifion yn nes at eu cartrefi.

Efallai y byddwch yn ymweld â'r ysbytai hyn i fynd i apwyntiadau fel claf allanol neu glinigau.



Mae gan **Ysbyty Aneurin Bevan**, yng Nglynebwy, 80 o welyau adsefydlu, cyfleusterau Pelydr-X, adran i gleifion allanol, cyfleusterau iechyd meddwl, gwasanaethau therapi, a chanolfan eni dan arweiniad bydwagedd o'r radd flaenaf.

Mae gan Ysbyty Aneurin Bevan hefyd Uned Mân Anafiadau.

Mae gan **Ysbyty Cymunedol Cas-gwent** 32 o welyau adsefydlu, cyfleusterau Pelydr-X, dwy feddygfa meddyg teulu, ardal therapi ac adran i gleifion allanol.

Mae gan **Ysbyty Gwynllyw**, yng Nghasnewydd, wardiau orthopedig a dermatoleg, cyfleusterau Pelydr-X, wardiau adsefydlu, cyfleusterau iechyd meddwl, ac adran i gleifion allanol.

Mae gan **Ysbyty Sirol**, ym Mhont-y-pŵl, 44 o welyau adsefydlu, cyfleusterau Pelydr-X, adran i gleifion allanol, cyfleusterau iechyd meddwl, ac adran ffisiotherapi i gleifion allanol.

Mae **Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Monnow Vale**, yn Nhrefynwy, yn cynnig asesiadau iechyd meddwl ac apwyntiadau cleifion allanol i oedolion hŷn. Mae yna hefyd 19 o welyau adsefydlu a meddygfa meddyg teulu yn yr ysbyty.

Mae gan **Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Rhymni** ddwy feddygfa meddyg teulu, cyfleusterau iechyd meddwl, gwasanaethau therapi a nifer fach o welyau adsefydlu.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

BYDD GWASANAETHAU GIG YNG NGWENT YN NEWID

pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor



FFONIWCH 999 NEU EWCH I YSBYTY ATHROFAOL Y FAENOR

Os oes gennych SALWCH A ALLAI BERYGLU BYWYD
neu ANAF DIFRIFOL



EWCH I UNED MÂN ANAFIADAU

Yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Ystrad Fawr
neu Ysbyty Aneurin Bevan, os oes gennych fân anaf
(Bydd angen i blant dan 1 oed fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor).



CYSYLLTWCH Â'CH MEDDYG TEULU

Os oes gennych salwch neu bryder
nad yw'n peryglu bywyd.



FFONIWCH GIG 111 Cymru

Os ydych yn sâl, yn ansicr beth i'w wneud ac angen cymorth.
Gallwch hefyd ffonio 111 i gael gofal Meddyg Teulu brys
pan fydd eich meddygfa ar gau.



TRIN GARTREF neu GYSYLLTU Â'CH FFERYLLYDD

Os oes gennych fân salwch neu anhwylder megis llwnc tost,
peswch, llid croen neu salwch ysgafn cyffredin.

Am ragor o wybodaeth ewch i: bipab.gig.cymru.

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:



@BIPAneurinBevan



BwrddIechydAneurinBevan